



## **Arddel yr Iaith Gymraeg Cynog Dafis**

Darlith Flynyddol Cynllunwyr Iaith Cymru  
Eisteddfod Bro Morgannwg 2012

Roedd cael y gwahoddiad i annerch y cyfarfod yma o Gynllunwyr Iaith Cymru a drefnwyd gan IAITH: *y ganolfan cynllunio iaith* yn fraith arbennig, ac am reswm personol iawn. Llinos Dafis sydd ymysg llawer iawn o bethau eraill yn digwydd bod yn wraig i mi a sefydlodd y cwmni arloesol yma ac wedi iddi adael ei swydd yn Brif Weithredydd fe fuodd yn aelod o'r Bwrdd am flynyddoedd wrth i'r cwmni fynd o nerth i nerth dan arweiniad Gareth Ioan.

Mi benderfynais dderbyn y gwahoddiad am fod gen i syniadau yn berwi yn y mhen yr oeddwn i am roi llais iddyn nhw. Man cychwyn y syniadau hynny oedd y profiad rwyf i wedi'i gael dro ar ôl tro, hyd at syrffed, o fod mewn cynadleddau, pwyllgorau a chyfarfodydd lle mae pob cyfleustra ar gael i ddefnyddio Cymraeg, a siaradwyr Cymraeg rhugl neu go rugl, (rhai ohonyn nhw'n Gymreigyddion cyhoeddus adnabyddus) yn dewis defnyddio Saesneg. A'r cyfieithydd ar-y-pryd a'i offer, gwasanaeth digon costus, yn eistedd yn segur. Fe all fod pob math o resymau dros hynny:

- awydd i gydymffurfio â'r mwyafrif,
- bod yn 'gwrtais' drwy ymateb i siaradwr Saesneg yn Saesneg,
- eisiau dangos bod eu Saesneg gystal a neb arall,
- teimlo'u bod siarad iaith y mwyafrif yn eu galluogi i ddylanwadu ar y gwrandawr yn fwy effeithiol,
- teimlo'u bod yn gallu cael yr ergyd adref yn well yn Saesneg neu fod eu Cymraeg yn llai 'cywir', neu liwgar, neu rymus, na'u Saesneg,
- eisiau cael eu gweld a'u clywed ar y cyfryngau Saesneg.

Does dim amser nawr i restru enghreifftiau ond mae rhaid cyfeirio at ein Cynulliad Cenedlaethol ni. Cywirwch fi os ydwyf yn anghywir, ond yr argraff sydd gen i yw fod defnydd o Gymraeg wedi lleihau yn y Cynulliad ers y blynyddoedd cyntaf. Mae'n normal i weld siaradwyr Cymraeg digon atebol yn dewis traddodi yn Saesneg ac rwyf i wedi gweld

enghreiffiau tra chwithig o ACau Cymraeg yn cyfnewid sylwadau â'i gilydd yn Saesneg. Ar wahân i unrhyw beth arall, beth feddyliech chi yw'r neges *subliminal* i blant ysgolion pan fydd rheini'n ymweld â'r Cynulliad?

Effaith hyn oll yw bod rhyw fath o sbeiral o ddirywiad yn digwydd – llai o ddefnydd yn arwain at lai o hyfedredd, at lai o hyder wrth ddefnyddio Cymraeg, at grebachu cyffredinol a llai fyth o ddefnydd, nes bod y sawl sydd wastad yn defnyddio Cymraeg yn ymddangos yn gynyddol, ac yn wir yn teimlo, fel rhyw fath o ffrîc. Yn y bau gyhoeddus felly, mewn sefyllfaoedd dwyieithog, sef y mwyafrif y dyddiau hyn, mae'r Gymraeg ar ei ffordd allan, a hynny ar yr union adeg pan mae'r cyfleustra i'w defnyddio hi'n well nag erioed.

A dyna'r peth negyddol diwethaf rwyf am ddweud heddiw. Y cwestiwn pwysig yw: sut mae gwrthdroi'r duedd yna? Sut mae creu sbeiral o gynnydd yn lle sbeiral o ddirywiad?

Drwy feddwl a siarad yn bositif i ddechrau. Drwy ddiosg llawer o rethreg y gorffennol:

*'Paham y rhoddiast i ni'r tristwch hwn,  
A'r boen fel pwysau plwm ar gnawd a gwaed,  
Dy iaith ar ein hysgwyddau megis pwn  
A'th draddodiadau'n hual am ein traed.'*

Roedd y Gwenallt cynnar yn gamster ar rethreg, rhythm, cyseiniedd a delweddu. Roedd e'n fardd pwerus – ac mae'r gerdd yna'n un arwyddocaol fel darn o archaeoleg lenyddol yr 20fed ganrif.

Ond mae'n bwysig i ni nawr ymddihatru o'r math yna o *angst*, snapo mâs ohono fe a mabwysiadu geirfa newydd. Hyder yn lle *angst*. Siarad am dwf a chynnydd a datblygiad ac ymdaith yn lle gwarchod, amddiffyn, cadw, achub a diogelu. O bethau'r byd, peidio sôn am ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrifoldeb neu ddyletswydd.

Mae polisi cyhoeddus ers dyddiau *Tynged yr Iaith* a sefydlu Cymdeithas yr Iaith wedi'i drawsnewid yn llwyr. Ganol y 60au roedd Swyddfa'r Post yn gwrthod dangos arwydd Gymraeg ar ffasâd eu hadeiladau; chaech chi ddim cofrestru genedigaeth na marwolaeth yn Gymraeg; roedd gwrthwynebwyr sefydlu ysgolion Cymraeg yn siarad am apartheid a *ghettos*.

Erbyn hyn mae gyda ni Ddeddf Iaith rymus a chyfres o ddogfennau polisi gan Lywodraeth Cymru. Mae *Strategaeth y Gymraeg 2012-17: Iaith Fyw, Iaith Byw'* yn datgan y bydd

Llywodraeth Cymru yn arwain gweledigaeth o 'weld y Gymraeg yn ffynnu'; ac yn defnyddio 'cynllunio ieithyddol' i'r perwyl. Dros y pum mlynedd nesaf y bwriad yw:

- sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio;
- creu rhagor o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith;
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg ac yn y blaen.

Mae'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Ebrill 2010) yn sôn am:

*'...ein gweledigaeth o dwf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ym mhob oedran';*

ac yn dweud mai

*'addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant cadarn ieithyddol drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol.'*

Hefyd:

*'y dylai o leiaf tua 70% o amser y cwricwlwm fod drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i ddysgwyr feistrolï'r iaith yn ddigon cadarn.'*

Datgan hefyd bod:

*'Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor ganolog hon'. Ymhellach ei bod yn ddymunol 'sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynychu ysgol neu goleg lle defnyddir y Gymraeg ar gyfer yr holl weithgareddau.'*

Ymhlith y Safonau yn nogfen ymgynghorol Comisiynydd y Gymraeg mae Safonau Hybu sy'n mynnu y bydd:

*'...rhaid cymryd camau cadarnhaol i hybu neu i ymuno a gweithgareddau sy'n hybu neu'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.'*

Mynnu bod cyrff felly nid yn unig yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg ond yn hybu eu defnyddio hefyd.

Ystyr hyn oll yw bod disgwrs mudiad yr iaith dros y degawdau ers traddodi'r ddarlith radio a sefydlu Cymdeithas yr Iaith erbyn hyn wedi treiddio reit i ganol y sefydliad gwleidyddol. Dyw hyn yn ddim llai na chwyldro ac mae'n un o lwyddiannau diamheuol hunan-lywodraeth (gwell term na 'datganoli' sydd yn ei dro yn gam-gyfieithiad o '*devolution*'); er bod y broses wedi dechrau cyn hynny, fel roedd S.L. yn dadlau ddylai ddigwydd.

Wrth gwrs, un peth yw disgwrs a strategaeth a thargedau. Peth arall yw delifro, cyflawni, rhoi'r adnoddau ar waith. A dyna pam bod yr angen am bwysu ac ymgyrchu yn parhau, gymaint ag erioed. Mae'n dra phwysig, felly, fod mudiad polisi a phwysu newydd, *Dyfodol i'r Iaith*, wedi cael ei lansio ar y Maes ddoe. A chan fod modd diddymu deddfau yn ogystal â'u pasio nhw, fel mae hanes S4C wedi dangos, does wybod na fydd angen gweithredu tor-cyfraith, sef dull gweithredu amgen Cymdeithas yr Iaith, rywbyrd eto.

Ond does dim gwadu yn fy meddwl i nad yw mudiad yr iaith heddiw mewn sefyllfa hollol newydd. Ac yn y sefyllfa newydd yma, mae calonogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u hiaith mewn sefyllfaoedd cymysg-iaith, yn hollol angenrheidiol.

Mae sefyllfaoedd cymysg-iaith yn rhan o'r sefyllfa newydd. Nid dim ond fframwaith polisi cyhoeddus sydd wedi newid ers y '60au. Mae'r tir demograffig yn symud o dan ein traed. Rydyn ni'n byw mewn byd o symudoledd ac atomeiddiad cymdeithasol anhygoel lle mae perthynas unigolion, teuluoedd a chymunedau â'i gilydd yn cael ei hail-ddiffinio gan chwyldro gyfathrebu electronig na allasai Saunders Lewis fyth fod wedi'i ragweld. Yn y byd tymhestlog, parhaus-gyfnewidiol hwn mae rhaid i'r Gymraeg fyw, nid yn bennaf mewn cymunedau sefydlog traddodiadol.

Mae Ned Thomas yn cloi ei ragymadrodd nodedig i'r argraffiad newydd o *Tynged yr Iaith* drwy gyfeirio at bwysigrwydd '*rhyw diriogaeth lle mae'r iaith... yn ei chartref ei hun*' ond hefyd at bwysigrwydd siaradwyr Cymraeg '*yn y brifddinas a chanolfannau grym*'. Ei frawddeg olaf-e yw:

*'Y perygl yw y bydd y naill grŵp a'r llall yn marw ar wahân os na ddysgwn feddwl amdanom ein hunain a threfnu ein hunain fel un grŵp ieithyddol.'*

Wel, Amen i'r frawddeg olaf yna yn arbennig, heblaw y byddai'n well gen i ddweud: gadewch i ni fynd ati rhag blaen i'n trefnu'n hunain fel un grŵp ieithyddol. Gadewch i ni fynd ati i wneud y gymuned Gymraeg yn realiti.

A honno'n gymuned hyderus sy'n **arddel** ei hiaith lle bynnag y caiff ei haelodau eu hunain. Cymuned sy'n defnyddio'i hiaith, sef iaith nodweddiadol hanesyddol cenedl y Cymry wedi'r

cyfan, ar bob cyfle lle bo hynny'n ymarferol ac yn bosibl. Wrth siarad, wrth ddarllen, gwylio a gwrando ac wrth ysgrifennu – sgwennu hyd yn oed – ac yn enwedig wrth drydar, gweplyfru ac ati. A thrwy hynny hyrwyddo twf ac ymdaith y Gymraeg.

Mae ymrwymo i ddefnyddio Cymraeg bob cyfle posibl yn swnio ar y wyneb yn elfennol ac yn hunan-amlwg, yn ddof hyd yn oed. Mewn gwirionedd mae e'n chwyldroadol. Mae'n golygu creu diwylliant newydd lle mae siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd yn dod i weld defnyddio'r iaith yn beth cwbl **normal**. Byddai **normaleiddio'r** Gymraeg o fewn ein cymdeithas ddwyieithog genedlaethol ni yn '*ddim llai na chwyldroad*' (SL).

Chwyldroad angenrheidiol. Ac i fi gael dyfynnu Saunders Lewis ymhellach:

*'Nid polisi i unigolion, un yma, un acw ar siawns mo hyn ... Polisi i fudiad yw ef..'*

(Ac os dywedith rhywun mod i'n dyfynnu allan o gyd-destun, rwy'n pledio'n euog – a'r rheswm am hynny yw fod y cyd-destun wedi newid yn radical, yn y gwraidd.)

O fewn cwmpas eang y mudiad yma – un cwbl wirfoddol wrth gwrs – bydd rhai, debyg iawn, ar flaen y gad, eraill yn fwy pertusgar, cymhedrol, eraill yn dilyn o hirbell, eithr yn dilyn serch hynny – ond pawb yn symud i'r un cyfeiriad, yn rhan o'r un symudiad. Y symudiad i helaethu terfynau teyrnas yr iaith Gymraeg.

Oes eisiau gofyn y cwestiwn: pam ar yr adeg yma bod angen rhoi pwyslais ar helaethu terfynau'r iaith Gymraeg (achos dewis yw hi rhwng helaethu a chrebachu)? Efallai fod e.

Mae Gerry Holtham, gŵr y mae ei syniadau a'i ddadansoddiad wastad yn haeddu parch, yn dadlau mai un gwahaniaeth rhwng Cymru a'r Alban yw bod ein rhaniad ieithyddol ni yn rhwystr i undod y genedl ac felly i'r gyriant tuag at ragor o hunan-lywodraeth, hyd yn oed annibyniaeth. (Nid dadlau mae e dros beidio hyrwyddo'r Gymraeg gyda llaw, ond cynnig dadansoddiad gwleidyddol.)

Fel arall y gwelaf i bethau. Mae llawer o resymau wrth gwrs dros hyrwyddo twf y Gymraeg, ond mae un yn arbennig o arwyddocaol efallai ar hyn o bryd.

Datganoli neu beidio, hunan-lywodraeth neu beidio, y marn yw mai peth bregus iawn fyddai hunaniaeth Cymru fel cenedl heb yr iaith Gymraeg. Dros y canrifoedd y Gymraeg wedi'r cyfan oedd y peth a'n cadwodd ni'n wahanol. Mi ges y nharo'n arbennig wrth ddarllen cyfrol newydd Gomer sy'n cynnwys *Tynged yr Iaith* gan eiriau SL yn ei gyfweliad nodedig a Meirion Edwards yn 1968:

*'Hyd yn oed i Gymry nad oes ganddyn nhw ddim Cymraeg, fe ellwch roi dadl yr iaith mewn dull i chi fedru apelio atyn nhwythau. Oblegid dyma'r gwir amdani, hyd yn oed os nad oes gennych chi yr iaith, mae acen yr iaith ar yr iaith a orfodwyd arnoch chi, ar eich Saesneg chi. Os rhoir anrhydedd i'r iaith Gymraeg yn swyddogol yng Nghymru, yna mae pob dyn sydd ag acen yr iaith honno ganddo, dim ond ei hacen hi, yn fwy ei hunan-barch ... ac mae nhwythau eu hunain yn cyfranogi yn nhraddodiad iaith â chanddi fil a hanner o flynyddoedd o draddodiad.'*

Wrth arddel polisïau i hyrwyddo'r Gymraeg heddiw, mewn amgylchiadau gwahanol iawn, mae arweinwyr gwleidyddol yn dadlau mai rhywbeth sy'n perthyn i holl bobl Cymru yw'r iaith Gymraeg, a thrwy hynny'n adleisio geiriau Saunders Lewis.

Mi ddadleuwn i fod y Gymraeg ar un ystyr yn fwy hanfodol i hunaniaeth Cymru heddiw nag oedd-hi pan lefarodd S.L. y geiriau yna. Oherwydd mae'n weddol amlwg fod tafodiaith Cymru o'r iaith Saesneg yn colli tir yn go gyflym. Mae pob un o'n ŵyrion i'n siarad Cymraeg yn burion, ond maen nhw'n siarad Saesneg fel Saeson, fel sy'n wir ysywaeth am y rhelyw o ohebyddion y BBC. Dyna wahaniaeth arall rhwng Cymru a'r Alban.

Nôl a ni at y gymuned Gymraeg y mae Ned Thomas yn annog ei chreu. Bydd y gymuned honno yn rhannol yn diriogaethol a chymdogaethol, yn rhannol yn sefydliadol, i raddau helaeth yn rhwydweithiol, ac yn arbennig yn electronig-rwydweithiol, sef elfen allweddol yn chwyldro'r oes yr ydyn ni'n byw ynddi.

A dyna pam y mae-hi'n briodol bod hyn oll yn dechrau ar wefan annibynnol dan fantell *IAITH: y ganolfan cynllunio iaith*, sydd wedi cymryd at Arddel fel prosiect. A diolch yn fawr iddyn nhw am wneud hynny. P'un a fydd IAITH yn gartref parhaol i Arddel neu a oes yna ddewis arall – mae hyn yn fater i'w ystyried ymhellach.

Ond nawr, bant â'r cart, neu i ddefnyddio cyfeiriadaeth ysgrythurol sydd hefyd yn ddyfyniad o gân gan Steve Eaves, un o ymgynghorwyr IAITH, *'Ymlaen mae Canaan!'* Ond yn bendant ddim, i ni fynd nôl at Gwenallt,

*'Rhag cywilyddio'r tadau yn ei heirch.'*

**Cynog Dafis**  
**9 Awst 2012**